



8 Ionawr 2021

Annwyl Bennaeth

Dymuniadau da i chi am flwyddyn newydd gwell yn y gobaith y daethoch o hyd i beth amser i orffwys yn ystod yr egwyl.

Yn anochel, ac fel y nodais yn fy llythyr atoch ar 16 Rhagfyr, rydym wedi gweld dechrau anodd i 2021 gyda Chymru ar lefel rhybudd 4, ac ysgolion a cholegau yn symud i ddysgu o bell, oherwydd cynnydd sylweddol yn nhrosglwyddiad y straen COVID-19 newydd.

Bydd y Prif Weinidog yn cadarnhau heddiw y byddwn yn sicrhau bod y broses o wneud penderfyniadau ynglŷn ag ysgolion a cholegau yn cyd-fynd ag amserlen adolygu tair wythnos Llywodraeth Cymru ar 29 Ionawr. Bryd hynny, oni bai bod cyfraddau trosglwyddo cymunedol yng Nghymru yn gostwng yn sylweddol erbyn 29 Ionawr, bydd y rhan fwyaf o fyfyrwyr mewn ysgolion a cholegau yn parhau i weithio o bell tan hanner tymor mis Chwefror.

Rwyf am bwysleisio – dan arweiniad adroddiad TAG, i'w gyhoeddi cyn cyhoeddiad y Prif Weinidog – nad yw hwn yn ddewis deuaidd syml rhwng cau ysgolion nawr a'u hailagor ym mis Chwefror. Mae adroddiad TAG yn glir ar gyfraniad addysg i'n hymdrechion i ddelio â hyn, nid am fod ysgolion bellach yn fwy anniogel neu'n peri risg uwch i athrawon a phlant.

Yr ydym yn cymryd y camau hyn oherwydd bod yr amrywiolyn newydd yn arwain at llawer mwy o heintiau ac yn arwain at fwy o bobl yn mynd yn sâl ac yn mynd i'r ysbyty.

Bydd cydweithwyr yn gwybod nad yw'r amrywiant newydd yn golygu bod ysgolion wedi mynd yn anniogel yn sydyn. Nid ydynt yn peri mwy o risg i athrawon na myfyrwyr.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Gwyddom fod amser i ffwrdd o'r ysgol yn effeithio'n fawr ar y bobl fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas, gan achosi niwed gydol oes. Dyna pam y bydd ysgolion a cholegau yn parhau i fod ar agor i blant gweithwyr hanfodol a dysgwyr sy'n agored i niwed. Oherwydd pa mor agored i niwed yw'r plant a'r bobl ifanc yr ydych yn gofalu amdanynt, hoffem i Ysgolion Arbennig aros ar agor os oes modd.

Rwy'n ddiolchgar iawn i chi ac i'ch staff am y cymorth y byddwch yn ddarparu i rai o'n plant a'n pobl ifanc mwyaf agored i niwed a'u rhieni.

I'ch cefnogi chi, eich staff a'ch dysgwyr:

- Wrth gyflwyno'r brechlyn, bydd staff ysgol sy'n darparu gofal personol i blant ag anghenion meddygol cymhleth yn cael eu cynnwys ar y rhestr flaenoriaeth ynghyd â gweithwyr gofal cymdeithasol
- Bydd pob ysgol arbennig yn derbyn y cyfle i ddewis cynnal profion wythnosol ar yr holl staff. Bydd hyfforddiant yn dechrau'r wythnos nesaf i'r rhai sydd am gymryd rhan.

Byddwn yn defnyddio'r wythnosau nesaf i weithio gyda chi i gynllunio ar gyfer y dyfodol. Ond eto, diolch am eich ymroddiad.

Yn gywir



Kirsty Williams AS/MS
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education